

## **Cais i ddileu neu newid amod yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio**

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

## **Cais i newid neu ryddhau amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd adeilad rhestredig**

*Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*

Dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio i wneud cais i ddileu neu newid amod yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig.

Yn aml, bydd amodau cynllunio ynghlwm wrth roi caniatâd cynllunio. Mae'r rhain yn cyfyngu ar y ffordd y gall y caniatâd cynllunio gael ei weithredu ac yn ei reoli. Gall amodau fod ynghlwm wrth roi caniatâd cynllunio yn achos rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd, lle mae angen gwneud gwaith ar unrhyw dir o'r fath, cael gwared ar unrhyw adeilad neu waith a awdurdodwyd gan y caniatâd, neu roi'r gorau i unrhyw ddefnydd tir a awdurdodwyd, ar ddiwedd cyfnod penodol, a gwneud unrhyw waith sy'n ofynnol er mwyn adfer tir ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Mae Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i geisiadau gael eu gwneud am ganiatâd datblygu heb fod angen cydymffurfio ag amod(au) a osodwyd yn flaenorol ar ganiatâd cynllunio. Gall yr awdurdod cynllunio lleol roi'r fath ganiatâd yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau gwahanol, neu gall wrthod y cais os yw'n penderfynu y dylai'r amod(au) gwreiddiol barhau. Bydd y caniatâd cynllunio gwreiddiol yn parhau i fodoli beth bynnag fo canlyniad y cais o dan adran 73. Ni fydd Adran 73 yn gymwys os yw'r cyfnod yn yr amod blaenorol a oedd yn cyfyngu ar y cyfnod y gallai'r datblygiad ddechrau ynddo wedi dod i ben heb i'r datblygiad ddechrau.

Ymhlith pethau eraill, mae Adran 73A o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud ceisiadau cynllunio ôl-weithredol o ran datblygiad a wnaed heb ganiatâd, ac ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio i awdurdodi datblygiad a wnaed heb gydymffurfio â rhyw amod cynllunio yr oedd yn ddarostyngedig iddo. Efallai y bydd angen rhoi sylw arbennig i amodau a osodwyd ar ganiatadau cynllunio a roddwyd o dan adran 73A. Er enghraifft, ni fydd yr amod safonol sy'n cyfyngu ar amser yn briodol lle mae datblygiad wedi dechrau cyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

Gall caniatâd adeilad rhestredig fod yn ddarostyngedig i amodau i ddiogelu'r modd y caiff yr adeilad ei drin neu amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei wneud mewn ffordd benodol. Serch hynny, ar adegau gall ddod yn glir nad yw amod yn briodol mwyach (e.e. am fod problemau strwythurol dilys yn codi, neu am fod gwell ffyrdd o drin yr adeilad yn cael eu llunio, neu datgelir nodweddion eraill o ddiddordeb ar ôl i'r gwaith ddechrau). Felly, mae Adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn bosibl i gais gael ei wneud gan unigolion sydd â buddiant yn yr adeilad ac sydd, yn syml, am newid yr amodau heb ailgodi'r holl gwestiwn ynghylch a ddylid bod wedi rhoi caniatâd. Wrth ymdrin â'r fath gais mae modd hefyd i'r awdurdod (neu Weinidogion Cymru) ychwanegu amodau newydd canlyniadol at y caniatâd.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig cyn i chi gyflwyno eich cais a cheisio cyngor cyn gwneud cais oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol. Am fanylion, ewch i wefan eich awdurdod cynllunio lleol.